COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Rhagfyr 14eg, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), Alun Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, William B. Williams, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Catherine Ll. Morris, R. Phillip Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Llongyfarchwyd CLlM ar ddathlu pen-blwydd arbennig a dymunwyd gwellhad buan i RPR ar ôl ei driniaeth heddiw.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd:

- Cyng. John Gwilym Jones ddiddordeb yn 2. Ceisiadau Cynllunio: C16/1390/39/TC – Cais Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i ddefnyddio siale fel tŷ annedd – The Chalet, Bryn Awelon, Cilan, oherwydd ei fod yn gymydog i'r ymgeisydd, er mai cais yn gofyn am wybodaeth bersonol cynghorwyr ydyw
- Cyng. William B. Williams ddiddordeb yn 2. Ceisiadau Cynllunio: C16/1571/39/LL – Cyn-fanc NatWest, Aber-soch, gan ei fod yn rhedeg busnes gyferbyn; ni adawodd y cyfarfod na chymryd rhan yn y drafodaeth.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 9fed, 2016 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/1390/39/TC	Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr – Cais Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i ddefnyddio siale fel tŷ annedd – The Chalet, Bryn Awelon, Cilan **[Datgan Diddordeb – JGJ]**
C16/1402/39/LL	Estyniad llawr cyntaf a balconi i'r blaen ac addasiadau i ffenestr gromen – Angorfa Bach, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/1417/39/LL	Adeiladu strwythur canopi (to a waliau) dros ardal decio allanol presennol – Zinc Café & Bar, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Cefnogir**

C16/1504/39/LL Estyniad unllawr ochr, adeiladu storfa gardd newydd ac addasiadau – Grinallt, Aber-soch **– Cefnogir**

C16/1549/39/LL Dymchwel modurdy a chodi un newydd – Eagle House, Sarn Bach **– Cefnogir**

C16/1568/39/LL Adnewyddu caniatâd C11/1185/39/LL i ddymchwel gweithdai presennol ac adeiladu dwy uned wyliau hunan gynhaliol – Iard Creigir Wen, Lôn Engan, Aber-soch **– Cefnogir**

C16/1571/39/LL Newid defnydd o Fanc (A2) i Siop (A1) a pharlwr hufen iâ a chaffi (A3) ar y llawr daear â lle eistedd a gweinyddu o'r cefn a fflat hunan gynhaliol (C3) ar y llawr qcyntaf, ynghyd â chodi estyniad ac addasiadau i'r adeilad – Cyn-fanc NatWest, Aber-soch **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – WBW]**

C16/1578/39/LL Dymchwel tŷ ac adeiladau allanol cysylltiedig ac adeiladu dwy annedd a datblygiad cysylltiedig – Glenville, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd pryder am y dyluniad, yn arbennig ar ôl i'r annedd newydd ger Min y Don gyferbyn gael ei chaniatáu – mae'n anghymarus â gweddill y tai gerllaw. Mynegwyd y bydd y ddwy annedd fwriadedig yn dri llawr wrth greu modurdai ac ystafelloedd allanol dan do oddi tanynt. Hefyd, gofynnwyd a oes polisi'n caniatáu dymchwel un tŷ ac adeiladu dwy annedd ar ei safle?**

[Cafwyd pleidlais ar y cais hwn yn dilyn, yn gyntaf, cynnig ei wrthwynebu – fe'i eiliwyd a'i gefnogi gan bump – a chynigiwyd ei ohirio hyd nes derbyniwyd gwybodaeth os bodola polisi ai peidio – fe'i eiliwyd a'i gefnogi gan dri. O ganlyniad, y cynnig cyntaf o'i wrthwynebu a orfu.]

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus Tyddyn Callod, Aber-soch**

i) Ni lwyddwyd cysylltu â chyfreithiwr y Cyngor eto i ofyn am ei gyngor parthed drysau'r toiledau.

ii) Talwyd taliad olaf benthyciad PWLB y mis hwn – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

iii) Gosodwyd y system teledu cylch cyfyng drannoeth cyfarfod mis diwethaf ac mae i'w weld yn gweithio'n hwylus.

iv) ***Gwasanaeth Trethi*** – ***Gwerth Ardrethol Drafft***
Derbyniwyd ateb (Rhagfyr 8fed) yn nodi bod rhaid ymchwilio ymhellach i'r asesiad oherwydd nas gellid lleoli'r toiledau â'r côd post – dylid derbyn ateb o fewn deugain niwrnod.

b) **Glanhau Afon Soch**

Dychwelwyd copi o'r cynllun yn nodi y gwnaed y cyfan arno, nid ei farcio fel y gofynnodd y Cadeirydd i yrrwr y cwmni wneud. Penderfynwyd anfon copi wedi marcio tir y Cyngor gan ofyn am gost hwnnw'n unig, gan nad yw'n gyfrifol am weddill y ddyled.

c) **Cheshire Lamont – Enw Datblygiad Gwesty'r Harbwr**

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth – mae'n amlwg nad yw'n fwriad gan y datblygwr ateb. Cysylltwyd â Neville yn Swyddfa Ddidoli'r Post ym Mhwllheli ond, ni wyddai am enw i'r datblygiad. E-bostiwyd yr Adran Gynllunio i ofyn ac atebwyd drwy ddweud y dylid cysylltu â'r Tîm Enwi Tai a Strydoedd; gwnaed ddoe gan ofyn a fyddai modd derbyn ateb erbyn heno – ni dderbyniwyd yr un.

ch) **Archwiliad Cyfrifon 2015 – 2016 Cwmni BDO**

i) Ni dderbyniwyd anfoneb oddi wrth BDO hyd yma.

ii) Derbyniwyd e-bost oddi wrth Luned Evans, Swyddog Datblygu Un Llais Cymru (ULlC), yn diolch am dynnu ei sylw at anfodlonrwydd pawb â'r archwiliad. Yn dilyn anfon sylwadau, cyfarfu prif swyddogion ULlC â rhai Swyddfa Archwilio Cymru i'w cyflwyno iddynt ac, o ganlyniad, addawodd yr olaf y gweithiant ar ddatblygu dulliau o gefnogi'r Cynghorau Cymuned a Thref â'r broses archwilio allanol at y dyfodol, yn cynnwys gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth am natur a chynnwys yr archwiliadau.

iii) Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Cangen Gwynedd o Gymdeithas y Clercod (SLCC) a gynhaliwyd i drafod yr archwiliad allanol yn bennaf. Cwynai pawb am y cwmni a'r drefn a rhestrir crynodeb o'r hyn a ddymunir, e.e. canllawiau cliriach, sesiwn hyfforddi gan BDO (un well na gafwyd eleni), y tanseiliai rhai o'r sylwadau pitw waith yr archwilydd mewnol ac y dylai pob Clerc/Cyngor gwyno'n unigol, yn ogystal â'r Gangen. Amgaewyd copi o lythyr a anfonwyd at yr archwilydd mewnol eleni fel enghraifft o sut dylid ei eirio – derbyniodd sawl Cyngor sylw nad oedd yr hyn a anfonwyd ato'n dderbyniol.

d) **Graddfeydd Cyflogau Clercod 2016 – 2018**

Adroddodd y Cadeirydd bod angen penderfynu ar ba bwynt o fewn y raddfa y dylai cyflog y Clerc fod – angen cynnal Is-bwyllgor i'w gadarnhau, ynghyd â thrafod y cynllun pensiwn, yn unol â'r rheoliadau newydd.

dd) **Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch**

- Cynhaliwyd cyfarfod i ddiwygio a diweddaru Rheolau'r Fynwent (gweler cofnodion) ond, yn anffodus, ni lwyddwyd anfon copi ohonynt at aelodau'r Is-bwyllgor cyn heno fel y gobeithid oherwydd gwaeledd tad y Clerc.
- Anfonir llythyrau ymddiheuro at y cwynwyr, ynghyd â chopi o'r llythyr a anfonwyd at yr ymgymerwr/torrwr beddi er gwybodaeth. Nodir, hefyd, na dderbyniwyd ymateb oddi wrtho hyd yma.

e) **Ceisiadau Cynllunio – C16/0629/39/LL – Diddymu Amodau 3 a 4 o Ganiatâd Cynllunio C13/0594/39/LL er mwyn defnyddio uned wyliau bresennol fel tŷ annedd – Tafliad Carreg, Llysfor, Aber-soch**

Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Adran Gynllunio yn dilyn gofyn am eglurhad pam y caniatawyd yr uchod – gwnaed yr ymholiad cyntaf ym mis Gorffennaf a'r ail ym mis Medi; cysyllta'r Cyng. Wyn Williams â'r Adran i holi hefyd.

f) **Cyng. Wyn Williams – Cae Chwarae Aber-soch**
Gwnaed cynllun a mesuriadau cywirach o'r cae pêl-droed gan Clive Moore, Pwllheli. Bwriedir cyfarfod â'r rhoddwr i'w trafod ymhellach ddechrau'r flwyddyn.

ff) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Adroddodd Cyng. Wyn Williams y cyfarfu â'r Heddlu i drafod datblygiad pellach i'r system uchod fel bod modd iddynt wylio'r hyn sy'n digwydd o Swyddfa Pwllheli pe bai rhaid. Cysyllta Clorian Cymru â'r Clerc i roi manylion y costau ac ati cyn iddi gysylltu â'r Heddlu, gan yr addawyd cyfraniad ariannol at y cynllun. Cysylltir hefyd i roi geiriad cywir arwyddion i'w gosod ar y toiledau a Thalafon – cydsynia'r perchnogion. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei fewnbwn.

g) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl dan Adran 78(i) – Diddymu Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy – Ocean Crossing, Bwlchtocyn**
Ni lwyddodd neb o'r Cyngor fynychu gwrandawiad yr apêl ar Dachwedd 16eg.

ng) **Gwasanaeth Trethi – Gwerth Ardrethol Drafft**
Trafodwyd dan 4. Materion yn Codi a) Toiledau Cyhoeddus uchod.

h) **Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Eich Ardal Chi – Beth sy'n Bwysig?**
Adroddwyd mai tua deg trigolyn a fynychodd y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Aber-soch ar Dachwedd 21ain. Mynegi pryder am y feddygfa wnaeth y mwyafrif. Penderfynwyd ysgrifennu at Brif Weithredwyr y Bwrdd Iechyd a Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i holi beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ac ategu'r pryder.

5. **CYFRIFON 2017 – 2018**

O ganlyniad i dderbyn adroddiad BDO, yr archwiliwr allanol, mae'n rhaid i'r Cyngor:

1. baratoi cyllideb ddigonol i gefnogi a darparu tystiolaeth ar gyfer y cais am braesept (cysoni a llif arian)
2. ychwanegu mwy o fanylion at lythyr penodi'r archwiliwr mewnol – derbyniwyd copi o un a anfonwyd ato eleni yn dilyn cyfarfod Cangen Gwynedd o Gymdeithas y Clercod i'w ddefnyddio
3. angen creu cofrestr asedau'r Cyngor fydd angen ei chadarnhau gan yr archwiliwr mewnol tro nesaf

cyn penderfynu a chadarnhau praesept 2017 – 2018 (at ddiwedd mis Ionawr fel arfer). Rhestrodd y Clerc y penawdau ariannol a ddefnyddia'r Cyngor ar hyn o bryd; bydd angen clustnodi arian iddynt a'u cadarnhau yng nghyfarfod mis Ionawr.

Gan nad oes gan y Cyngor gofrestr asedau, paratowyd rhestr debygol ohonynt a bydd angen chwilio trwy'r cofnodion a'r llyfrau ariannol i ddod o hyd i'w cost prynu ac ati.

6. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd cais cynllunio tystysgrif cyfreithloni hyd yma.

7. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned**

i) ***Mainc Sarn Bach*** – cliriwyd yr eiddew a'r tyfiant o'i chwmpas; ni chysylltwyd â'r paentwyr lleol. Cofiwyd mai Antur Aelhearn wnaeth un neu ddwy o'r meinciau yn y gymuned a phenderfynwyd holi os oes gweithwyr yn dal i'w gwneud ac os all rhywun eu paentio hefyd.

ii) ***Coed ger Ysgubor Wen*** – cysylltwyd â'r Adran i ofyn beth sy'n digwydd o ran eu tocio, gan na wnaed hyd yma.

b) **Biniau Halen**
Derbyniwyd llythyr yn nodi prisiau manylach o union gostau cyflenwi'r uchod:

- llenwi pob bin yn y gymuned cyn y gaeaf – £40.00 (i ddechrau Haf 2017)
- ail-lenwi bin ar gais y gymuned yn ystod y gaeaf – £60.00 (Hydref 1af – Ebrill 30ain).

Nodir hefyd bod rhaid i unrhyw gais am lenwi bin yn ystod y gaeaf dderbyn sylw a chymeradwyaeth y Clerc a'i drefnu â'r Swyddog Cyswllt trwy e-bost.

c) **Rhybudd Cau Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn â Trem-y-Dŵr, Bwlchtocyn**
Cwblhawyd y gwaith erbyn hyn.

8. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
2004 yw'r dyddiad cynharaf yn y ffeiliau a edrychwyd trwyddynt hyd yma ond, gwelwyd bod hen lyfr taliadau o'r saithdegau – chwilir trwyddo.

b) ***Torri'r Llwybrau***

i) Derbyniwyd llythyr yn hysbysu y bydd toriad pellach yn yr ad-daliad am dorri llwybrau Categori 1 a 2 yn y flwyddyn ariannol nesaf – clustnodwyd uchafswm o £35,000, sef hanner cyfartaledd y blynyddoedd diweddar. Gofynnir am gadarnhad os yw'r Cyngor am

barhau i gymryd rhan yn y trefniant ad-dalu yn 2017 – 2018 ai peidio – ydi. Ymatebwyd i'r holiadur i gael barn Cynghorau Cymuned a Thref er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer darpariaeth y gwasanaeth i'r dyfodol.

ii) ***Tendr 2017 ymlaen –*** Mae angen hysbysebu'r tendr cyn gynted â phosibl hefyd – cysylltir â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i'w holi eto a gofyn am ei sylwadau ar wneud fesul Ward, gan na dderbyniwyd ymateb oddi wrtho mewn pryd eleni.

c) ***Llwybr y Morwyr – Nefyn i Aber-soch***

Aeth y Clerc i'r cyfarfod drannoeth cyfarfod mis Tachwedd ond, roedd y tirfeddiannwr a'r Cyng. Gruff Williams wedi mynd draw at y safle dan sylw eisoes. Wrth ymddiheuro, adroddodd Cyng. Williams y gwnaed y gwaith erbyn hyn ar wahân i ambell lwybr estyllog ac, o ganlyniad, dylai'r llwybr fod ychydig sychach o'r herwydd. Ychwanegodd Cyng. Wyn Williams y deil problem fach sydd angen ei datrys yn Nanhoron, gan fod y llwybr yn mynd trwy'r chwarel.

9. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Adroddiad a Chyfleoedd Rhwydweithio ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol***
Copi, er gwybodaeth.

ii) ***Bwletin Gwybodaeth Tachwedd***
Copi, er gwybodaeth.

iii) ***Rheoliadau Drafft Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2016***
Copi o'r ymgynghoriad a ddaw i ben Chwefror 6ed, 2017.

iv) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Rhaglen a chofnodion cyfarfod a gynhelir yng Nghaernarfon heno – ymddiheurwyd na fyddai cynrychiolwyr o'r Cyngor yn bresennol.

v) ***Hyfforddiant mis Ionawr 2017***
Rhestr o'r cyrsiau a gynhelir er gwybodaeth – neb am fynychu.

vi) ***Egwyddorion a Chanllawiau ar gyfer Defnyddio Trefniadau dim oriau'n briodol o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus Datganoledig Cymru***
Copi, er gwybodaeth.

vii) ***Ymgynghoriad ynglŷn â newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol***
Angen sylwadau erbyn Mawrth 3ydd, 2017.

b) **Llywodraeth Cymru –** ***Cyhoeddiad CFfDLC – Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer***

Dogfen yn amlinellu amserlen arfaethedig y Comisiwn ar gyfer cynnal yr arolygon o brif gynghorau Cymru.

c) **Swyddog Canlyniadau – Etholiadau Cyngor Cymuned 2017**
Llythyr yn amcanu costau cynnal yr uchod fesul cymuned neu ward gymunedol ar Fai 4ydd, 2017: hyd at 1000 etholwr – £1,250 a hyd at 2000 etholwr – £1,750. Nid ydynt yn ffigurau pendant – gallant fod yn uwch neu'n is. Os cynhelir etholiad Cyngor Sir yn yr un adeilad dyrennir costau rhentu a thaliadau staff ac os bydd yr etholiad yn y gymuned/ward yn ddiwrthwynebiad codir tâl o £100.00 fesul ardal (ward) etholiadol. Rhoddir moratoriwm (a ddechreuodd ar Dachwedd 8fed) ar lenwi swyddi gweigion achlysurol am chwe mis cyn dyddiad etholiadau arferol. Erys sedd yn wag tan ar ôl yr etholiad pe rhodda cynghorydd y gorau i'w swydd yn ystod y cyfnod hwn.

ch) **Adran Rheoleiddio – Hysbysiad o Gais Deddf Trwyddedu 2013 – Trwydded Eiddo – Kin & Co, Lôn Pen Cei, Aber-soch**
Angen sylwadau erbyn Rhagfyr 15fed – dim gwrthwynebiad.

d) **Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) – Tâl Aelodaeth 2017**
Cytunwyd talu'r tâl – £108.00 sy'n unol â chyflog y Clerc.

dd) **Cefnogaeth Gorfforol – Bod yn Gynghorydd**
Lawnsiodd Cyngor Gwynedd gynllun yn anelu at annog mwy o ferched, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig ac aelodau o grwpiau eraill a dan-gynrychiolir i ystyried sefyll fel cynghorwyr. Cynhelir sesiwn paratoi ymgeiswyr at sefyll yn llwyddiannus yn Etholiad mis Mai 2017 – nos Fawrth, Ionawr 17eg yn Ystafell Gyfarfod Frondeg, Pwllheli, am chwech o'r gloch.

e) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Creu Gorchymyn Diogelu Coed – Tir cyfochrog â 109 – 111 Cae Du, Aber-soch**
Llythyr yn cadarnhau y crëwyd yr uchod â newidiadau ar Dachwedd 28ain. Amgaewyd copi fel y'i cadarnhawyd a disodla'r un dros dro a grëwyd ar Ebrill 22ain.

f) **Delwedd – Adolygiad Peiriannau Archwilio ac Ystadegau Misol**
Copi o'r uchod, er gwybodaeth.

10. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C16/0604/39/TC	Cais Tystysgrif Cyfreithlon i ddefnyddio Bryntirion fel tŷ annedd – Bryntirion, Lôn Golff, Aber-soch – **Gwrthodwyd**
C16/0951/39/RC	Diwygio Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy neu cynnig cyfraniad ariannol at dai fforddiadwy – Awel Neigwl, Sarn Bach – **Gwrthodwyd**
C16/1104/39/LL	Estyniad unllawr cefn, ynghyd ag addasiadau i'r adeilad yn cynnwys ffenestri newydd a chladio'r edrychiad blaen a rhan o'r ochr – East Meets West, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

C16/1105/39/LL	Estyniad i adeilad hamdden er mwyn ymestyn spa presennol gan gynnwys ystafelloedd triniaeth, pyllau, lle bwyta ac ystafelloedd newid – The Warren, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C16/1121/39/LL	Cais ôl-weithredol ar gyfer estyniad i'r lolfa haul bresennol, codi ardal llwyfan a strwythur ar wahân – 9 Ystád Mur Poeth, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1224/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd gromen yn ei le – Pen y Ffordd, Yr Harbwr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1252/39/RC	Diwygio Cytundeb 106 er mwyn dileu Cymalau 1d ac 1e sy'n clymru tir y fferm i'r uned wyliau – Bryn Beudy, Castellmarch, Aber-soch – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C16/1312/39/LL	Iard storio cychod – Sŵn y Môr, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1316/39/LL	Codi uchder to'r tŷ fetr er mwyn addasu'r gofod ac estyniad unllawr cefn – Erwenni, Yr Harbwr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1346/39/LL	Cyfnewid ac ymestyn balconi – 244 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C16/1375/39/LL	Sied amaethyddol ar gyfer anifeiliaid – Bodwi, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**

YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS

C16/1344/39/YM	Estyniad – Hyfrydle, Mynytho
C16/1439/39/YM	Estyniad i greu llawr cyntaf – 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn
C16/1480/39/YM	Gosod carafán at ddefnydd atodol i'r tŷ, ynghyd â sied, ardal ddecio a 'thŷ haf' – Tan y Sarn, Sarn Bach

11. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Rhagfyr a chostau gweinyddol (Ebrill – Rhagfyr) y Clerc (Rh/S 002026 a 002030), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) PWLB – £2203.91 (Debyd Uniongyrchol – Taliad Olaf Benthyciad at Doiledau Lôn Traeth)
b) Canolfan Gymdeithasol Llanengan – £130.00 (Rh/S 002027 – Llogi Ystafelloedd)
c) Canolfan Ffensio a Melin Goed Glasfryn – £405.48 (Rh/S 002028 – Coed Nadolig)
ch) Cyngor Gwynedd – £127.70 (Rh/S 002029 – Gwagio Biniau Baw Cŵn mis Hydref)
d) Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) – £108.00 (Rh/S 002031 – Tâl Aelodaeth 2017)
dd) Dŵr Cymru – £332.77 (Rh/S 002032 – Gwasanaeth Carffosiaeth a Chyflenwad Dŵr Toiledau Lôn Traeth)

Derbyniadau

a) Arian Mynediad y Toiledau – £11.50
b) NatWest – £0.09c (Cywiro camgymeriad siec)

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ionawr 11eg, 2017 am saith o'r gloch